

Gwrandawriad cyn penodi - Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Gorffennaf 2022

1. Cyflwyniad

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

1. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ("Yr Ymddiriedolaeth") ym 1998, a daeth Galw Iechyd Cymru yn rhan o'r sefydliad ym mis Ebrill 2007. Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaeth i tua thair miliwn o bobl ledled Cymru, dros ardal o bron i 8,000 milltir sgwâr, wedi'u gwasgaru ar draws tirwedd drefol, arfordirol a gwledig amrywiol.

2. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymateb i fwy na 250,000 o alwadau brys y flwyddyn ac yn cludo dros 1.3 miliwn o gleifion nad ydynt yn achosion brys i fwy na 200 o ganolfannau triniaeth ledled Cymru a Lloegr. Mae'n cyflogi mwy na 3,600 o bobl, y mae tua 70 y cant ohonynt o fewn y gwasanaethau meddygol brys (sy'n cynnwys y Canolfannau Cyswllt Clinigol), a thua 640 o staff yn y Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys. Cefnogir y gwasanaethau sy'n ymdrin â chleifion yn uniongyrchol gan tua 500 o staff mewn swyddogaethau corfforaethol a swyddogaethau cymorth, a chan y gweithlu gwirfoddol estynedig, sy'n cynnwys mwy na 600 o Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol a 200 o Yrwy'r Ceir Gwirfoddol.

3. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu o 90 o orsafoedd ambiwlans, tair swyddfa ranbarthol a phum gweithdy cerbydau. Yn ystod y pandemig, fe wnaeth hefyd wella ei darpariaeth Canolfan Cyswllt Clinigol o fewn y model presennol o gael pum prif ganolfan ar gyfer ymdrin â galwadau 999 a galwadau 111/Galw Iechyd Cymru ledled Cymru. Mae ganddi ei Choleg Hyfforddiant Cenedlaethol ei hun i sicrhau bod staff yn cynnal lefelau uchel o



berfformiad ac yn cael cyfleoedd datblygiad proffesiynol rheolaidd. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cynnal y gwasanaeth 111, sy'n gyfuniad o Galw Iechyd Cymru ac elfennau o wasanaethau y tu allan i oriau gan feddygon teulu, gan gynnwys ymdrin â galwadau a brysbennu clinigol dros y ffôn, ac sydd bellach yn gweithredu ledled Cymru gyfan.

2. Y broses gwrandawriad cyn penodi

Y broses

4. Cytunodd Gweinidogion Cymru a Senedd Cymru i gyflwyno proses o waith craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd neu benodiadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella ymhellach y gwaith o graffu ar benodiadau cyhoeddus yn ogystal â thryloywder y broses. Yn gyffredinol, mae gwaith craffu cyn penodi yn digwydd ar ffurf gwrandawriad cyhoeddus cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Ar gyfer penodiadau i'r rolau y cytunwyd arnynt, y pwyllgor perthnasol sy'n penderfynu a yw'n dymuno cynnal gwrandawriad cyn penodi ai peidio.

Gwrandawriad cyn penodi

5. Ar 29 Mehefin 2022, cynhaliodd y Pwyllgor wrandawriad cyn penodi gyda Colin Dennis, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer swydd cadeirydd yr Ymddiriedolaeth. Mae trawsgrifiad y cyfarfod ar gael ar [wefan y Pwyllgor](#).

6. I helpu i lywio'r gwrandawriad, cyflwynodd Llywodraeth Cymru bapur briffio i ni ar y broses ("[y Papur briffio gan Lywodraeth Cymru](#)"). yn ogystal â chopi o CV Colin Dennis a datganiad ategol. [Hefyd, cawsom gopi o'r pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr](#). Gofynnodd y Pwyllgor i'r ymgeisydd a ffefrir lenwi [holiadur](#) cyn y gwrandawriad.

3. Y broses recriwtio

7. Ar 28 Mawrth 2022, cyhoeddodd Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru hysbyseb ar gyfer swydd cadeirydd yr Ymddiriedolaeth.

8. Hysbysebwyd y rôl ar wefan recriwtio Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Hefyd, penodwyd asiantaeth i nodi ymgeiswyr addas posibl ar gyfer y rôl.

9. Daeth y cyfnod hysbysebu o bedair wythnos i ben ar 25 Ebrill 2022. Daeth chwe chais i law. Gellir dod o hyd i ddata ynghylch amrywiaeth yr ymgeiswyr yn y [papur briffio gan Lywodraeth Cymru](#).

Manyleb y rôl a'r person

10. Amlinellodd Llywodraeth Cymru rôl y cadeirydd yn y [pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr](#). Roedd hyn yn cynnwys hysbysiad y gallai penodiad i rôl y cadeirydd fod yn amodol ar wrandawriad cyn penodi, yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor.

11. Bydd y cadeirydd yn atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am berfformiad y Bwrdd ac effeithiolrwydd y ffordd y caiff ei lywodraethu, gan gynnal gwerthoedd y GIG ac ennyn hyder y cyhoedd a phartneriaid ledled Cymru.

12. Yn ogystal, bydd y cadeirydd yn:

- datblygu Gweledigaeth Strategol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth a'i gwasanaethau, gan nodi'r potensial a'r sgiliau cynhenid o fewn y sefydliad, a'u gwireddu, i ddatblygu gwasanaeth arloesol sy'n arwain y byd;
- darparu arweinyddiaeth gref, effeithiol a gweladwy ar draws holl gyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth, yn fewnol ledled yr Ymddiriedolaeth ac yn allanol drwy gysylltiadau ag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid ar lefel genedlaethol a chymunedol, yn ogystal ag ymhlith awdurdodau lleol a sefydliadau'r GIG;
- sicrhau bod y Bwrdd ar y cyd yn mynegi ac yn gwireddu nodau strategol yr Ymddiriedolaeth drwy gynlluniau cyflawni a threfniadau llywodraethu priodol;
- bod yn gyfrifol am gynnal safonau ac arferion gwaith o'r radd flaenaf ym maes iechyd cyhoeddus, a gwella ansawdd a diogelwch gofal iechyd;
- bod yn atebol am berfformiad y Bwrdd ar lefel gymunedol, lefel awdurdod lleol a'r lefel genedlaethol drwy gytuno ar gynllun tymor canolig integredig tair blynedd a chynllun cyflawni blynyddol, yn ogystal â gwerthusiad cyhoeddus blynyddol o gyflawniadau yn erbyn y cynllun gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- dwyn y Prif Weithredwr i gyfrif ar draws yr ystod o faterion y mae'n gyfrifol amdanynt;

- gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, yn enwedig byrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau iechyd arbennig, awdurdodau lleol, y trydydd sector a phartneriaid gofal cymdeithasol, i sicrhau bod gwasanaethau diogel ac effeithiol yn cael eu cynllunio a'u darparu;
- darparu proses sicrwydd a llywodraethu i hyrwyddo stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus ac adnoddau eraill y mae'r Bwrdd yn atebol amdanynt;
- rhoi sicrwydd bod y Bwrdd yn cael ei lywodraethu'n effeithiol o fewn y fframwaith a'r safonau a osodwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru; ac
- ymgymryd â rôl fel llysgennad allanol, gan weithredu ar lwyfan cyhoeddus ac ennyn hyder y cyhoedd.

4. Yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru

Cefndir

13. Colin Dennis, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, yw Cadeirydd Grŵp Citizen Housing - un o ddarparwyr tai cymdeithasol mwyaf y DU sy'n darparu gwasanaethau tai a chymorth arbenigol, gan gynnwys llochesi a hosteli, i bobl hŷn, unigolion ag anawsterau dysgu, unigolion sy'n gaeth i gyffuriau neu alcohol, pobl ifanc, y digartref a throseddwyd a ryddhawyd yn ddiweddar, ochr yn ochr â darparu tai cymdeithasol traddodiadol ar draws Gorllewin Canolbarth Lloegr, Swydd Gaerwrangon, Swydd Henffordd a Swydd Gaerloyw.

14. Mae ei CV yn cynnwys y disgrifiad a ganlyn:

"An experienced Non-Executive Chair and board member in the Health, Social Care and Social Housing sectors, with a former executive career in MD and CEO roles in highly regulated, customer focused, complex, multi-stakeholder environments. Combining practical non-executive experience from the board of an acute hospital trust, and Group Chair experience in a County-wide adult social care and reablement service provider, leading strategic planning, service integration, governance improvement and operational transformation (including digitalisation, modernisation and OD)."

15. Mae copi llawn o'r CV a'r datganiad ategol ar gael ar ein gwefan.

Ein barn ni

16. Yn unol â'r canllawiau ar wrandawiadau cyn penodi y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd, ein rôl yw nodi ein barn ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

17. Yn ystod y gwrandawriad cyn penodi, cawsom drafodaeth eang â Colin Dennis, sef yr ymgeisydd a ffefrir. Gwnaethom drafod ei brofiad o weithio mewn sefydliadau eraill, gan gynnwys rolau yn y GIG, gofal cymdeithasol a'r sector preifat.

18. Soniwyd am yr angen am newid ym meddylfryd y cyhoedd, gan gynnwys helpu pobl i ddeall bod gwasanaethau fel 111 yn cynnig dewis amgen yn lle galw 999 a'r ffaith na fydd pob galwad ambiwlans o reidrwydd yn arwain at dderbyniad i'r ysbyty. Hefyd, gwnaethom drafod pwysigrwydd llywodraethu da, ac annog diwylliant lle y gellir codi materion sy'n peri pryder yn rhydd heb ofni'r canlyniadau. Cydnabu Mr Dennis fod yr Ymddiriedolaeth wedi dechrau trawsnewid o fod yn wasanaeth cludo yn bennaf i fod yn wasanaeth sy'n darparu gofal ar y pwynt cyswllt cyntaf, gan osgoi derbyniadau i'r ysbyty. Dywedodd wrthym fod rhagor o waith i'w wneud, a siaradodd am yr angen am newid diwylliannol, wedi'i arwain o frig y sefydliad a chynnwys yr holl staff. Dangosodd frwdfrydedd a pharodrwydd i ymgysylltu'n agored â staff a'r cyhoedd yn y broses hon.

Casgliad 1. Yn seiliedig ar ei berfformiad a'i ymatebion i gwestiynau yn y gwrandawriad cyn penodi, credwn fod Colin Dennis, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, yn addas i'w benodi i swydd cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru.

19. Pe bai Colin Dennis yn cael ei benodi, dymunwn yn dda iddo ar gyfer y dyfodol ac edrychwn ymlaen at graffu arno'n adeiladol yn ei rôl fel cadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn ystod y Senedd hon.